

VAUGHAN, HERBERT MILLINGCHAMP (1870 - 1948), hanesydd, ac awdur

Enw: Herbert Millingchamp Vaughan

Dyddiad geni: 1870

Dyddiad marw: 1948

Rhiant: Julia Ann Vaughan (née Morris)

Rhiant: John Vaughan

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: hanesydd, ac awdur

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 27 Gorffennaf 1870 yn Mhenmorfa, Llangoedmor, Sir Aberteifi, mab hynaf John Vaughan a Julia Ann (Morris). Cafodd ei addysg yn ysgol Clifton a Choleg Keble, Rhydychen, lle y graddiodd. Gan fod ganddo foddion preifat medrodd roddi ei holl fryd ar astudio hanes a llenyddiaeth ac ymroddi i lenyddiaeth. Cyhoeddodd dros ddwsin o lyfrau, heblaw ysgrifennu lluo o erthyglau ac adolygiadau, a gadael ar ei ôl, heb eu cyhoeddi, dair nofel a gweithiau ereill. Ei lyfr cyhoeddedig cyntaf oedd *The Last of the Royal Stuarts* (1906), sef hanes Henry Benedict Stuart, y dug Efrog Iacobitaidd a chardinal Efrog wedi hynny. O 1899 hyd 1910 bu'n byw yn yr Eidal, yn Naples a Florence yn rhan fwyaf o'r amser, yn astudio hanes a daearyddiaeth y wlad honno ac yn ysgrifennu llyfrau (gweler Rhestr yn *Who's Who*). Yn 1912-13 bu'n trafaelio yn Awstralia, gan gyhoeddi *An Australasian Wander Year*. Yn ystod Rhyfel Mawr I yr oedd gartref ym Mhlas Llangoedmor, yn cynorthwyo ar bwyllgorau ynglŷn â gwaith rhyfel ac yn ysgrifennu nofelau - e.e., *Meleager: A Fantasy* (1916) a *The Dial of Ahaz* (1919). Cyhoeddodd *Sonnets from Italy* yn 1919, a *Nepheloccygia: or Letters from Paradise* yn 1929.

Yn 1924 symudodd Vaughan i Ddinbych-y-pysgod ac yno yr ysgrifennodd ei waith mwyaf adnabyddus o safbwynt Cymru, sef *The South Wales Squires* (1926). Yr oedd ei wybodaeth am hen deuluoedd tiriog Cymru yn eang; dyna'n ddiau a barodd iddo gystadlu yn yr eisteddfod genedlaethol ar y testun - '*Jacobitiaid Cymru*' (a gyhoeddwyd yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*) 1920, ac ysgrifennu (yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1911-12, 1919-20) ar *Thomas Jones* yr Hafod a'i wasg argraffu breifat.

Ysgrifennai'n fynych hefyd i gyfnodolion a newyddiaduron, yn enwedig i'r *West Wales Historical Records*, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, *Welsh Outlook*, y *Western Mail*, a rhai o gyfnodolion mwyaf adnabyddus Lloegr.

Coffeir Vaughan hefyd am ei wasanaeth gwerthfawr dros dymor hir (1916-48) i Lyfrgell Genedlaethol Cymru - fel cyngorwr a phwyllgorwr ac fel rhoddwr hael i'r sefydliad hwnnw. Rhoes i'r Lyfrgell gasgliad ei hen-daid **Benjamin Millingchamp** o'r llawysgrifau dwyreiniol a gasglasai hwnnw - am fanylion gweler 'Life and Letters of the Venerable Benjamin Millingchamp' (NLW MSS 13915-13916B yn awr) a Hermann Ethé, *N.L.W. Catalogue of Oriental Manuscripts* (1916). Yr oedd yn awdurdod ar blatiau llyfrau; bu'n cynorthwyo i gatalogio casgliad helaeth **Syr Evan Davies Jones, barwnig**, ac efe a gatalogiodd (1938) gasgliad Aneurin Williams (yn LL.G.C.). Pan oedd yn byw yn yr Eidal casglodd lawer o lyfrau prin a chain; y mae'r casgliad hwn yn LL.G.C. bellach. Ychydig cyn ei farw ysgrifennodd fath ar hunangofiant - 'Memoirs of a Literary Bloke' (NLW MS 14341C) a 'Notes on the Life of Dorothy, Viscountess Lisburne' aelod o deulu **Fychaniaid** Trawsgoed (Sir Aberteifi) yr oedd yntau'n perthyn ar un ochr iddo (NLW MS 14647C). Bu farw 31 Gorffennaf 1948 yn Ninbych-y-Pysgod.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, vi. 166-9

Who's who?, 1948

adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44673892

Wikidata: Q18912095

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government